



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Astudiaeth achos arfer effeithiol

## Digwyddiadau cyhoeddus Ofcom

Cyhoeddwyd – Ionawr 2022

Pan oedd ymgynnull wyneb-yn-wyneb heb ei ganiatáu dan fesurau i atal lledaeniad Covid-19, fe ysgogwyd Ofcom i gynllunio digwyddiadau ar-lein. Mae'r rheoleiddiwr darlledu a chyfathrebiadau, sy'n gweithredu ar draws gwledydd Prydain, wedi cynnal y digwyddiadau rhithwir dwyieithog canlynol yn ystod y cyfnod:

- Eu gweminar rithwir gyntaf, sef '[Datgloi cysylltedd yng Nghefn Gwlad Cymru](#)' fel rhan o arlwy ar-lein Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020;
- digwyddiad [Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr](#) ym mis Tachwedd 2020; a'u
- digwyddiad [Cynllun Blynyddol Ofcom](#) ym mis Chwefror 2021.

### Cefndir

Bu her dechnegol i gychwyn gan mai Microsoft Teams yw eu darparwr fideo-gynadledda cydnabyddedig, a gan nad oedd yn cynnig cyfleuster cyfieithu ar y pryd digonol roedd rhaid cael cymeradwyaeth eu hadran TG i ddefnyddio Zoom yn y digwyddiadau. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, trefnodd Ofcom ddigwyddiad rhithwir ar draws y DU ar ddiwedd mis Medi 2021, sef '[Dros bawb -Amrywiaeth mewn darlledu](#)'. Roedd Ofcom wedi rhoi'r gwaith technegol o redeg y digwyddiad i gynhyrchwyr digwyddiadau darlledu ITN Productions, ac fe addaswyd eu systemau hwy ar gyfer sesiwn S4C.<sup>1</sup>



<sup>1</sup> Llun: Cyflwynydd y digwyddiad, Dekan Apajee, yn y stiwdio gyda'r brandio dwyieithog yn amlwg drwy gydol y dydd. Mae modd gwyllo'r sesiynau yn ôl [drwy gofrestru ar y wefan ficro](#).

## Y gwaith a wnaethpwyd

Er bod Ofcom wedi sefydlu trefn ar gyfer cynnal digwyddiadau mawrion yn ddwyieithog ers nifer o flynyddoedd, roedd angen paratoi ar gyfer y digwyddiad diweddaraf. Ar gyfer y sesiwn 'Medru Hansh', cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a sesiynau trwytho gyda'r adran ddigwyddiadau ganolog yn Llundain a chriw cynhyrchu ITN i sicrhau bod staff y tu allan i Gymru yn deall gofynion y safonau wrth drefnu sesiwn cyfrwng Cymraeg. Roedd y cyfieithydd ar y pryd allanol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd a'r sesiwn ymarfer cyn y digwyddiad Amrywiaeth i sicrhau bod y dechnoleg yn addas at eu dyletswyddau ieithyddol.

I sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg yn y gwahanol gyflwyniadau a sesiynau, trefnwyd bod pennaeth y cwmni cyfieithu a benodwyd yn bresennol trwy gydol y digwyddiad ac ar gael i ddarparu cyfieithu ar y pryd yn y sesiwn rhithwir. Roedd hefyd yn darparu'r cyfieithiadau ar gyfer yr is-deitlau byw.

Y criw Digwyddiadau yn Llundain ddaeth at staff swyddfa Cymru gyda'r cynllun i gynnwys S4C yn y digwyddiad gan fod staff yr adran Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd yn Llundain wedi meithrin perthynas dda gyda'r criw Medru Hansh ac awgrymu eu cynnwys.

## Canlyniadau hyd yma

Mae'r adran Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd Ofcom yn Llundain am ddatblygu'r berthynas gyda Hansh ymhellach yn dilyn y digwyddiad a chreu rhwydweithiau rhwng sefydliadau tebyg.

Mae Ofcom yn awyddus i gynyddu'r ymgysylltu gyda siaradwyr Cymraeg ac amlygu bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn gallu cyfrannu a gwrandao ar eu digwyddiadau yn Gymraeg heb rwystr. Gyda sesiwn S4C o fewn y digwyddiad rhithwir ar draws y DU, rhoddwyd llwyfan ehangach i'r Gymraeg ac i S4C ym maes amrywiaeth mewn darlledu. Roedd arweinwyr blaenllaw nifer o feysydd amrywiaeth a chynhwysiad y byd darlledu yn cymryd rhan o'r tu allan i'r DU hefyd a'r Gymraeg a sianel Gymraeg yn cael sylw yn eu plith.

Yn ôl Ofcom, cafwyd ymateb "gwyb" oddi wrth nifer o'r staff Digwyddiadau a threfnwyr yr adran Safonau Darlledu ar gyfer gwaith swyddfa Cymru Ofcom yn Gymraeg. Cafwyd [trydar cefnogol gan S4C](#) yn dilyn y digwyddiad a derbyniwyd adborth positif gan rhanddeiliaid allanol a fynychodd y digwyddiad 'Dros Bawb' am y sesiwn Gymraeg:

"Gweithiodd y digwyddiad yn grêt. Roedd yn dda iawn cynnwys mwy nag un iaith, sef y Gymraeg, gyda BSL hefyd."

## Sut gall hyn weithio i sefydliadau eraill?

Ar gyfer digwyddiad o'r raddfa hon, roedd angen cynllunio trwyadl a sicrhau bod y gwahoddiadau, brandio, deunyddiau a'r wefan oll yn cwrdd â gofynion y safonau fel isafswm. fe wnaeth Ofcom sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn naturiol yn y ddigwyddiad a chynnwys siaradwyr Cymraeg wrth groesawu, cyflwyno neu

gadeirio trafodaethau fel rhan o weithgareddau'r digwyddiadau (rhithwir neu wyneb yn wyneb). Mae angen sicrhau bod yr adnoddau technegol angenrheidiol ar gael ar gyfer cyfieithu ar y pryd a bod hwnnw wedi ei dreialu, yn ôl Ofcom.

Roedd darparu isdeitlau mewn digwyddiad byw am y tro cyntaf yn dipyn o her, meddent. Ac er y nodwyd na fu unrhyw gamgymeriadau wrth drawsgrifio'r geiriau Cymraeg, roedd ychydig o oedi rhwng deialog clywedol y cyfieithydd a'r testun gan yr isdeitlwyr yn cyrraedd y sgrin.

Gyda digwyddiadau rhithwir, cyngor Ofcom yw i ddyfalbarhau wrth ddod ar draws rhwystrau technegol gan fod modd eu datrys gydag ymdrech. Fe fu'n ddigwyddiad dwyieithog llwyddiannus gan fod y Gymraeg wedi'i chynnwys yn nyddiau cynnar y cynllunio.

### Manylion cyswllt

Sefydliad:	Ofcom
E-bost:	<a href="mailto:ymholiadaucymraeg@ofcom.org.uk">ymholiadaucymraeg@ofcom.org.uk</a>
Swyddog cyswllt:	Joanna Davies

### Barn Comisiynydd y Gymraeg

Wrth i arferion gweithio newid yn sylfaenol, mae sicrhau bod modd cynnal digwyddiadau'n rhithwir (yn hytrach na wyneb yn wyneb) yn ffordd dda o arbed amser a chostau teithio.

Er bod y Comisiynydd yn cydnabod nad yw pob system fideogynadledda eto'n gallu cefnogi cyfarfodydd dwyieithog yn llawn, mae'n bwysig cofio bod systemau'n bodoli sy'n galluogi mynychwyr i ddewis a ydynt yn gwrando ar y cyfarfod yn yr iaith wreiddiol neu'n gwrando ar gyfieithiad drwy sianel wahanol.<sup>2</sup>

Fel nifer o sefydliadau sydd wedi gorfod gweithredu mewn ffyrdd amgen dros gyfnod y pandemig, mae Ofcom wedi dangos bod modd cynnal digwyddiadau mawr yn rhithwir yn llwyddiannus heb gyfyngu ar y ddarpariaeth Gymraeg, ac wedi amlygu i'r mynychwyr bod croeso iddynt ddefnyddio eu Cymraeg os taw dyna yw eu dymuniad.

---

<sup>2</sup> [Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog](#)